Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Y Gymraeg mewn addysg uwch, 2024/25

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/12/2026 |
| **Dyddiad:** | 28 Gorffennaf 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler newid yn statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Ystadegau am allu myfyrwyr i siarad Cymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a nifer y cofrestriadau lle ceir rhywfaint o astudio yn Gymraeg.<br><br>Ystadegau ar nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu yn Gymraeg, ac sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg, mewn prifysgolion yng Nghymru. |
| **Thema:** | Addysg uwch, Y Gymraeg, Cyfrwng Cymraeg |
| **Ffynhonnell:** | Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Cyflwyniad....2
Newidiadau o ddatganiadau blaenorol....2
Diwygiadau o ddatganiadau blaenorol....2
Cefndir....2
Prif bwyntiau....4
Adran A: Gallu i siarad Cymraeg....5
Adran B: Astudio yn Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg rhugl....9
Adran C: Yr holl gofrestriadau'n astudio yn Gymraeg....13
Adran D: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl....18
Adran E: Staff....21
Diffiniadau....24
Talgrynnu....24
Myfyrwyr....24
Staff....25
Gwybodaeth am ansawdd a'r fethodoleg....26
Ffynonellau data....26
Nodiadau ansawdd ar gyfer Cofnod Myfyrwyr HESA....26
Nodiadau ansawdd ar gyfer Cofnod Staff HESA....27
Prosesau Sicrhau Ansawdd....27
Datganiad o gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau....28
Newid yn statws ystadegau achrededig....29
Ystadegau cysylltiedig....30
Gwybodaeth gyswllt....30

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol ynglŷn â gallu myfyrwyr yn y Gymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a faint o gofrestriadau sy'n cynnwys astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am allu staff mewn prifysgolion yng Nghymru i addysgu yn Gymraeg a pha un a ydynt wedi'u contractio i wneud hynny. Drwy'r adroddiad pan ydym yn cyfeirio at astudio yn Gymraeg, astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a olygir gennym yn hytrach nag astudio Cymraeg fel pwnc.

Mae'r data ar gael mewn taenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ar wefan Medr. Mae dadansoddiadau pellach o'r data ar gael ar StatsCymru hefyd.

## Newidiadau o ddatganiadau blaenorol

Yn dilyn adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chydweithwyr yn Medr, mae strwythur y cyhoeddiad hwn wedi cael ei ddiwygio i roi mwy o bwyslais ar siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Adran A bellach yn cyflwyno gwybodaeth am allu myfyrwyr i siarad Cymraeg. Wedyn mae Adran B yn canolbwyntio ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r dull hwn yn galluogi darllenwyr i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith y grŵp o fyfyrwyr sydd fwyaf tebygol o astudio cyfrannau sylweddol o'u cwrs yn Gymraeg.

Mae data ar yr holl fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a oedd wedi'i gynnwys yn Adran A yn flaenorol, bellach yn cael ei gyflwyno yn Adran C. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg gynhwysfawr o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector cyfan.

## Diwygiadau o ddatganiadau blaenorol

Mae data ar gyfer 2023/24 wedi cael ei ddiwygio i gynnwys data wedi'i ddiweddaru gan Brifysgol De Cymru. Effaith hyn fu gostyngiad o 45 yn nifer y cofrestriadau ar y cyfan a chynnydd o 1,010 yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru.

Bu diweddariad hefyd i nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd cyfrwng Cymraeg yn 2023/24 gan nad oedd nifer o fyfyrwyr ymchwil ôl-radd ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cael eu categoreiddio'n gywir. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg, sef cynnydd o 50 ym Mhrifysgol Bangor a chynnydd o 5 ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Cefndir

Un o flaenoriaethau allweddol Medr yw hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Nod 5 yn ein Cynllun Strategol yw hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gennym rôl arwyddocaol o ran meithrin diwylliant bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu, ac i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Byddwn yn hybu'r galw am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn sicrhau bod digon o ddarpariaeth i ateb y galw hwnnw. Bydd ein gwaith cynllunio'n annog dysgwyr i ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu taith addysg drydyddol, gan eu harfogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac mewn cyd-destunau anffurfiol.

### Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr yn 2017 ac fe gyhoeddwyd Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026 yn 2021.

Ynghyd â thargedau i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chamau gweithredu i'w galluogi i gamu ymlaen trwy eu haddysg orfodol ac ôl-orfodol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys targedau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda darparwyr i hybu, datblygu a chynnal cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn addysg drydyddol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti darparwyr i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a darparu ystod o ysgoloriaethau i annog dysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Coleg wedi'i ddynodi gan Weinidogion Cymru i roi cyngor i Medr i'n helpu i gyflawni ein dyletswydd i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Medr a'r Coleg wedi cydlofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n ffurfioli'r berthynas hon ac yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i gyrraedd ein nodau cyffredin.

## Prif bwyntiau

- Yn 2024/25, roedd yn hysbys bod 13% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru'n rhai gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd gan 15% arall ryw lefel o allu i siarad Cymraeg a hwythau naill ai'n siaradwyr nad oeddent yn rhugl neu'n siaradwyr â lefel gallu anhysbys.
- Yn 2024/25, fe wnaeth 33% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, ac fe wnaeth 22% astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg. Roedd y rhain yn gynnydd o'i gymharu â 30% a 21% yn 2023/24.
- Roedd 4% o'r cofrestriadau gan yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai nad oeddent o Gymru ac nad oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg, yn cynnwys astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn 2024/25, sef yr un gyfran ag yn 2023/24.
- Ar draws yr holl gofrestriadau, roedd 5,720 o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg yn 2024/25, sy'n gynnydd o 3% o'i gymharu â 2023/24, er bod hyn yn dal yn is nag mewn blynyddoedd cynharach.
- Roedd mwy na dwywaith cymaint o gofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd yn cynnwys o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg o'i gymharu â chofrestriadau gan fyfyrwyr gwrywaidd. O'r cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg, roedd myfyrwyr benywaidd hefyd yn fwy tebygol o astudio nifer uwch o gredydau yn Gymraeg na myfyrwyr gwrywaidd.
- Addysg a hyfforddiant oedd y pwnc modiwl â'r nifer a'r gyfran uchaf o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg.
- Roedd 630 o staff addysgu academaidd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg yn 2024/25, sy'n gynnydd o'r cyfanswm o 565 yn 2023/24.


## Adran A: Gallu i siarad Cymraeg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am allu myfyrwyr a oedd yn byw fel arfer yng Nghymru cyn eu hastudiaethau i siarad Cymraeg. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond ar gyfer y myfyrwyr hyn y mae gwybodaeth am allu yn y Gymraeg yn ofynnol yng nghofnod Myfyrwyr HESA.

Fe wnaeth y modd y cesglir data am allu yn y Gymraeg newid yn 2022/23. Fe ostyngodd ansawdd y data yn 2022/23 o ganlyniad i hyn, gyda nifer uwch o fyfyrwyr yn cael eu dychwelyd fel siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Nid oedd effaith fawr ar ansawdd y data ar gyfer nifer y siaradwyr rhugl. Yn 2023/24 a 2024/25 mae ansawdd y data wedi gwella ac mae niferoedd y siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn debyg i'r hyn a gasglwyd mewn blynyddoedd cynharach. Ceir rhagor o wybodaeth am y newid hwn a'r gwaith y mae Medr yn ei wneud i sicrhau ansawdd y data hwn yn yr adran nodiadau ansawdd o'r adroddiad hwn.

**Mae cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf**

Ffigur A.1: Nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg yn narparwyr AU Cymru, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 1a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25, roedd 9,120 o gofrestriadau gan fyfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn narparwyr addysg uwch Cymru. Roedd hyn ychydig yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn rhoi cyfrif am 13% o'r 69,220 o gofrestriadau yn narparwyr Cymru gan fyfyrwyr o Gymru.

Roedd 19,485 o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg o unrhyw allu yn narparwyr Cymru yn 2024/25. Roedd hyn yn rhoi cyfrif am 28% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru.

Tabl A.1: Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl gallu i siarad Cymraeg a darparwr, 2024/25

| | Siaradwr Cymraeg: rhugl | Siaradwr Cymraeg: nad yw'n rhugl | Siaradwr Cymraeg: gallu anhysbys | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys | Yr holl gofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **8,825** | **7,690** | **2,225** | **38,745** | **10,480** | **67,965** |
| Prifysgol De Cymru | 800 | 1,605 | 195 | 5,245 | 3,055 | 10,900 |
| Prifysgol Aberystwyth | 975 | 1,090 | 220 | 840 | 30 | 3,160 |
| Prifysgol Bangor | 1,250 | 675 | 0 | 1,630 | 10 | 3,565 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,610 | 1,710 | 0 | 6,775 | 120 | 10,215 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 810 | 750 | 110 | 4,070 | 30 | 5,775 |
| Prifysgol Abertawe | 1,185 | 795 | 5 | 6,600 | 15 | 8,600 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 960 | 650 | 115 | 4,160 | 105 | 5,995 |
| Prifysgol Wrecsam | 440 | 405 | 0 | 3,230 | 30 | 4,105 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 800 | 0 | 1,580 | 6,195 | 7,080 | 15,655 |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **300** | **375** | **70** | **410** | **100** | **1,255** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 270 | 235 | 65 | 140 | 55 | 765 |
| Grŵp Colegau NPTC | 10 | 50 | 0 | 55 | 0 | 110 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 10 | 0 | 15 | 0 | 30 |
| Coleg Cambria | 0 | 0 | 0 | 35 | 0 | 35 |
| Coleg Gwent | 5 | 30 | 0 | 20 | 15 | 70 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0 | 5 | 5 | 40 | 0 | 45 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0 | 5 | 0 | 20 | 30 | 55 |
| Athrofa Padarn Sant | 15 | 40 | 0 | 85 | 0 | 140 |
| **Pob darparwr** | **9,120** | **8,065** | **2,295** | **39,155** | **10,580** | **69,220** |

Data yn Nhabl 2a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Prifysgol Caerdydd oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau (1,610) gan fyfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Prifysgol Bangor (1,250) a Phrifysgol Abertawe (1,185) oedd â'r niferoedd uchaf nesaf o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl.

Prifysgol Caerdydd hefyd oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau (3,320) gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg o unrhyw allu. Yn dilyn wedyn roedd Prifysgol De Cymru (2,600) a'r Brifysgol Agored yng Nghymru (2,380).

Roedd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru a Phrifysgol De Cymru ill dwy niferoedd mawr o fyfyrwyr â gallu anhysbys i siarad Cymraeg. Caiff y rhesymau dros hyn eu hegluro yn yr adran nodiadau ansawdd.

Tabl A.2: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl gallu i siarad Cymraeg a darparwr, 2024/25

| | Siaradwr Cymraeg: rhugl | Siaradwr Cymraeg: nad yw'n rhugl | Siaradwr Cymraeg: gallu anhysbys | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **13%** | **11%** | **3%** | **57%** | **15%** |
| Prifysgol De Cymru | 7% | 15% | 2% | 48% | 28% |
| Prifysgol Aberystwyth | 31% | 35% | 7% | 27% | 1% |
| Prifysgol Bangor | 35% | 19% | 0% | 46% | 0% |
| Prifysgol Caerdydd | 16% | 17% | 0% | 66% | 1% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 14% | 13% | 2% | 70% | 1% |
| Prifysgol Abertawe | 14% | 9% | 0% | 77% | 0% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 16% | 11% | 2% | 69% | 2% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 5% | 0% | 10% | 40% | 45% |
| Prifysgol Wrecsam | 11% | 10% | 0% | 79% | 1% |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **24%** | **30%** | **6%** | **33%** | **8%** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 35% | 31% | 9% | 18% | 7% |
| Grŵp Colegau NPTC | 8% | 43% | 0% | 49% | 0% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 6% | 39% | 0% | 55% | 0% |
| Coleg Cambria | 0% | 0% | 3% | 97% | 0% |
| Coleg Gwent | 7% | 42% | 0% | 28% | 23% |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0% | 9% | 6% | 85% | 0% |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0% | 8% | 0% | 38% | 55% |
| Athrofa Padarn Sant | 9% | 30% | 0% | 61% | 0% |
| **Pob darparwr** | **13%** | **12%** | **3%** | **57%** | **15%** |

Data yn Nhabl 2b yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

O'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yn 2024/25, Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai oedd â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl (35% ill dau), gyda Phrifysgol Aberystwyth yn dilyn wedyn (31%).

Roedd bron tri chwarter (72%) y cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ym Mhrifysgol Aberystwyth a Grŵp Llandrillo Menai (75%) yn siaradwyr Cymraeg o unrhyw allu. Roedd hanner y myfyrwyr o Gymru ym Mhrifysgol Bangor (54%) a Grŵp Colegau NPTC (51%) hefyd wedi'u cofnodi fel rhai â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg.

Roedd gallu i siarad Cymraeg yn anhysbys ar gyfer 15% o’r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru. Roedd y mwyafrif o’r rhai anhysbys mewn dau ddarparwr, sef y Brifysgol Agored yng Nghymru a Phrifysgol De Cymru.

## Adran B: Astudio yn Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg rhugl


Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am nifer y cofrestriadau a oedd yn cynnwys astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl o adran A.

Cyfrifir nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad fesul modiwl. Er enghraifft, byddai modiwl 20 credyd y caiff 50% ohono ei astudio yn Gymraeg yn cyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Y cyfanswm ar draws pob modiwl yw cyfanswm nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad. Cyfrifir modiwlau yn y blynyddoedd academaidd y maent yn weithredol: os yw modiwl yn dechrau mewn un flwyddyn academaidd ac yn gorffen yn yr un nesaf yna fe'i cyfrifir yn y ddwy flynedd academaidd.

Mae'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg yn gronnus, er enghraifft mae rhywun sydd wedi astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhywun sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg hefyd.

**Er gwaethaf gostyngiad bach mewn siaradwyr Cymraeg rhugl yn 2024/25, fe gynyddodd nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd yn Gymraeg**

Ffigur B.1: Nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd rai credydau trwy gyfrwng y Gymraeg, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 3a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar [StatsCymru]

Yn 2024/25, fe wnaeth nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu 10% o'i gymharu â 2023/24. Roedd y 2,995 o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2024/25 ychydig yn is nag mewn rhai blynyddoedd cynharach. Fodd bynnag, roedd yn rhoi cyfrif am 33% o'r cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl, canran uwch nag mewn

blynyddoedd blaenorol oherwydd y nifer is o siaradwyr Cymraeg rhugl a oedd wedi'u cofrestru.

Roedd nifer y cofrestriadau a astudiodd niferoedd uwch o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gostwng ers brig yn 2020/21. Fodd bynnag, yn 2024/25 bu cynnydd yn y rhai a astudiodd o leiaf 40 ac o leiaf 120 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl B.1: Nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a darparwr, 2024/25

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | Yr holl gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **2,935** | **2,885** | **1,940** | **940** | **670** | **8,825** |
| Prifysgol De Cymru | 90 | 90 | 10 | 0 | 0 | 800 |
| Prifysgol Aberystwyth | 375 | 370 | 265 | 125 | 50 | 975 |
| Prifysgol Bangor | 695 | 695 | 565 | 370 | 260 | 1,250 |
| Prifysgol Caerdydd | 600 | 595 | 250 | 55 | 30 | 1,610 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 390 | 360 | 270 | 155 | 150 | 810 |
| Prifysgol Abertawe | 300 | 290 | 185 | 40 | 15 | 1,185 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 330 | 330 | 305 | 195 | 160 | 960 |
| Prifysgol Wrecsam | 35 | 35 | 15 | 0 | 0 | 440 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 125 | 120 | 75 | 0 | 0 | 800 |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **110** | **110** | **90** | **45** | **25** | **300** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 110 | 110 | 90 | 45 | 25 | 270 |
| Grŵp Colegau NPTC | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Coleg Cambria | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Coleg Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Athrofa Padarn Sant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 |
| **Pob darparwr** | **3,045** | **2,995** | **2,030** | **985** | **695** | **9,120** |

Data yn Nhabl 4a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25, Prifysgol Bangor oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob categori.

Prifysgol Caerdydd oedd â'r nifer uchaf nesaf o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd o leiaf 1 neu 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y cyfamser, roedd

gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant niferoedd tebyg o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd y niferoedd uwch o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Grŵp Llandrillo Menai oedd yr unig goleg addysg bellach neu ddarparwr amgen lle’r oedd cofrestriadau a oedd yn cynnwys astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghofnod Myfyrwyr HESA. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes gan y darparwyr hyn unrhyw ddarpariaeth yn Gymraeg gan mai dim ond rhai o’u cyrsiau sy’n cael eu dychwelyd ganddynt yng Nghofnod Myfyrwyr HESA gydag eraill a ddarperir trwy drefniant breinio gyda phrifysgolion yn cael eu dychwelyd gan y brifysgol sy’n bartner.

Tabl B.2: Canran y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a darparwr, 2024/25

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **33%** | **33%** | **22%** | **11%** | **8%** |
| Prifysgol De Cymru | 11% | 11% | 1% | 0% | 0% |
| Prifysgol Aberystwyth | 38% | 38% | 27% | 13% | 5% |
| Prifysgol Bangor | 56% | 55% | 45% | 30% | 21% |
| Prifysgol Caerdydd | 37% | 37% | 16% | 3% | 2% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 48% | 44% | 33% | 19% | 19% |
| Prifysgol Abertawe | 25% | 25% | 16% | 3% | 1% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 34% | 34% | 32% | 20% | 17% |
| Prifysgol Wrecsam | 8% | 8% | 4% | 0% | 0% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 16% | 15% | 9% | 0% | 0% |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **36%** | **36%** | **31%** | **15%** | **8%** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 40% | 40% | 34% | 16% | 9% |
| Grŵp Colegau NPTC | - | - | - | - | - |
| Coleg Gŵyr Abertawe | - | - | - | - | - |
| Coleg Cambria | - | - | - | - | - |
| Coleg Gwent | - | - | - | - | - |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | - | - | - | - | - |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | - | - | - | - | - |
| Athrofa Padarn Sant | - | - | - | - | - |
| **Pob darparwr** | **33%** | **33%** | **22%** | **11%** | **8%** |

Data yn Nhabl 4b yn y llyfr gwaith sy’n cyd-fynd â’r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25, roedd traean o’r cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn cynnwys o leiaf 5 credyd a astudiwyd yn Gymraeg. Fe wnaeth un ymhob pump (22%) o’r cofrestriadau astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg ac fe wnaeth bron un ymhob 10 (8%) astudio o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg.

Prifysgol Bangor oedd y darparwr â’r gyfran uchaf o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd yn Gymraeg, gyda mwy na hanner (56%) yn astudio o leiaf 1 credyd ac 1 ymhob 5 yn astudio (21%) o leiaf 120 o gredydau.

Roedd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (19%) a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (17%) gyfrannau cymharol uchel o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl ag o leiaf 120 o gredydau a astudiwyd yn Gymraeg hefyd.

## Adran C: Yr holl gofrestriadau'n astudio yn Gymraeg


Mae'r adran hon yn bwrw golwg ar nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg yn narparwyr addysg uwch Cymru ar draws pob cofrestriad gan yr holl fyfyrwyr.

Cyfrifir nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad fesul modiwl. Er enghraifft, byddai modiwl 20 credyd y caiff 50% ohono ei astudio yn Gymraeg yn cyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Y cyfanswm ar draws pob modiwl yw cyfanswm nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad. Cyfrifir modiwlau yn y blynyddoedd academaidd y maent yn weithredol: os yw modiwl yn dechrau mewn un flwyddyn academaidd ac yn gorffen yn yr un nesaf yna fe'i cyfrifir yn y ddwy flynedd academaidd.

Mae'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg yn gronnus, er enghraifft mae rhywun sydd wedi astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhywun sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg hefyd.

**Fe wnaeth nifer y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg gynyddu yn 2024/25**

Ffigur C.1: Nifer y cofrestriadau yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2016/17 i 2024/25




Data yn Nhabl 5a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Roedd 5,720 o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd o 3% o'i gymharu â 2023/24, er ei fod yn dal yn is nag mewn blynyddoedd cynharach.

Yn yr un modd, roedd nifer y cofrestriadau â niferoedd uwch o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg yn is nag yn 2021/22. Fodd bynnag, fe wnaeth y niferoedd a astudiodd o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg gynyddu yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd


ddiwethaf, gyda 755 o gofrestriadau a oedd yn cynnwys y nifer yma o gredydau yn Gymraeg yn 2024/25.

Ceir cwpl o ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffaith bod ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf yn is na blynyddoedd cynharach:

- Fe wnaeth nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ostwng rhwng 2020/21 a 2023/24, cyn codi ychydig yn 2024/25. Yn yr un modd, mae nifer y cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng ers 2020/21. Y rhain yw'r myfyrwyr y byddech yn disgwyl iddynt fod y mwyaf tebygol o astudio yn Gymraeg, felly'n naturiol bydd newidiadau i'r boblogaeth hon yn effeithio ar nifer y credydau sy'n cynnwys dysgu cyfrwng Cymraeg.
- Mae rhai darparwyr wedi diwygio sut y maent yn cofnodi'r gyfran o fodiwl a gaiff ei hastudio yn Gymraeg dros y cyfnod hwn, yn enwedig mewn perthynas â modiwlau lle mae myfyrwyr yn cael cyswllt â'r Gymraeg mewn modd goddefol. Mae hyn yn golygu y gall yr un lefel o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fod wedi cael ei chofnodi'n wahanol dros amser. Fe gyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ganllaw ym mis Chwefror 2026 i gynorthwyo darparwyr gyda sut y maent yn cyfrifo faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynhwysir ar fodiwl.

### Nid siaradwyr Cymraeg rhugl oedd yr unig fyfyrwyr a astudiodd yn Gymraeg

Ffigur C.2: Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg, yn ôl gallu i siarad Cymraeg a nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2024/25




Data yn Nhabl 6a ar y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Roedd bron hanner (47%) y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg gan fyfyrwyr a oedd naill ai o'r tu allan i Gymru, neu nad oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd cyfran fawr (85%) o'r cofrestriadau hyn yn

cynnwys llai na 40 o gredydau yn Gymraeg, a all gael ei esbonio gan y ffaith bod myfyrwyr ar fodiwlau â chyswllt gweddol gyfyngedig â’r Gymraeg, neu lle’r oedd ganddynt ddigon o sgiliau Cymraeg i gael eu haddysgu yn Gymraeg i raddau cyfyngedig.

Roedd 415 o gofrestriadau ag o leiaf 40 o gredydau wedi cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle nad oedd yn hysbys bod y myfyriwr yn siaradwr Cymraeg rhugl. Mae’n debygol y gall y rhain gael eu hesbonio i raddau helaeth gan gyfuniad o’r canlynol:

- Myfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru sydd â sgiliau Cymraeg ond bod y data ddim yn cael ei gasglu.
- Gwybodaeth anghywir am sgiliau Cymraeg wedi cael ei chasglu am ei bod yn seiliedig ar hunanasesiad myfyriwr, a hwythau o bosibl ddim yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Tabl C.1: Nifer y cofrestriadau yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a darparwr, 2024/25

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **5,550** | **4,810** | **2,320** | **1,065** | **725** | **142,085** |
| Prifysgol De Cymru | 185 | 185 | 15 | 5 | 5 | 20,790 |
| Prifysgol Aberystwyth | 480 | 475 | 285 | 135 | 50 | 8,970 |
| Prifysgol Bangor | 1,180 | 1,170 | 740 | 430 | 295 | 9,935 |
| Prifysgol Caerdydd | 680 | 675 | 295 | 90 | 35 | 31,505 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,330 | 895 | 300 | 160 | 155 | 15,415 |
| Prifysgol Abertawe | 780 | 680 | 205 | 45 | 20 | 18,985 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 340 | 340 | 310 | 200 | 170 | 12,265 |
| Prifysgol Wrecsam | 180 | 180 | 85 | 0 | 0 | 8,560 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 405 | 210 | 80 | 0 | 0 | 15,660 |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **170** | **170** | **125** | **60** | **30** | **1,740** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 170 | 170 | 125 | 60 | 30 | 825 |
| Grŵp Colegau NPTC | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 110 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 |
| Coleg Cambria | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 |
| Coleg Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 45 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 410 |
| Athrofa Padarn Sant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 210 |
| **Pob darparwr** | **5,720** | **4,980** | **2,445** | **1,120** | **755** | **143,825** |

Data yn Nhabl 7a yn y llyfr gwaith sy’n cyd-fynd â’r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â’r mwyaf o gofrestriadau (1,330) a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg. Prifysgol Bangor oedd â’r ail nifer fwyaf o gofrestriadau ar 1,180. Roedd y ddau ddarparwr hyn yn rhoi cyfrif am 44% o’r holl gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg.

Prifysgol Bangor oedd â’r niferoedd mwyaf o gofrestriadau lle cafodd o leiaf 80 neu 120 o gredydau eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn dilyn wedyn.

Grŵp Llandrillo Menai oedd yr unig goleg addysg bellach neu ddarparwr amgen lle’r oedd cofrestriadau a oedd yn cynnwys astudiaethau cyfrwng Cymraeg yng Nghofnod Myfyrwyr HESA. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes gan y darparwyr hyn unrhyw ddarpariaeth yn Gymraeg gan mai dim ond rhai o’u cyrsiau sy’n cael eu dychwelyd ganddynt yng Nghofnod Myfyrwyr HESA gydag eraill a ddarperir trwy drefniant breinio gyda phrifysgolion yn cael eu dychwelyd gan y brifysgol sy’n bartner

Tabl C.2: Canran y cofrestriadau yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a darparwr, 2024/25

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **4%** | **3%** | **2%** | **1%** | **1%** |
| Prifysgol De Cymru | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| Prifysgol Aberystwyth | 5% | 5% | 3% | 1% | 1% |
| Prifysgol Bangor | 12% | 12% | 7% | 4% | 3% |
| Prifysgol Caerdydd | 2% | 2% | 1% | 0% | 0% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 9% | 6% | 2% | 1% | 1% |
| Prifysgol Abertawe | 4% | 4% | 1% | 0% | 0% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 3% | 3% | 3% | 2% | 1% |
| Prifysgol Wrecsam | 2% | 2% | 1% | 0% | 0% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 3% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **10%** | **10%** | **7%** | **3%** | **2%** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 21% | 21% | 15% | 7% | 4% |
| Grŵp Colegau NPTC | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Cambria | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Gwent | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Athrofa Padarn Sant | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Pob darparwr** | **4%** | **3%** | **2%** | **1%** | **1%** |

Data yn Nhabl 7b yn y llyfr gwaith sy’n cyd-fynd â’r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25, roedd 4% o’r holl gofrestriadau’n cynnwys o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg. Roedd 1% o’r cofrestriadau’n cynnwys o leiaf 80 neu 120 o gredydau yn Gymraeg.


Y darparwyr â'r cyfrannau uchaf o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg oedd Grŵp Llandrillo Menai (21%), Prifysgol Bangor (12%) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (9%).

Ar gyfer yr holl ddarparwyr eraill nid oedd mwy na 5% o'r cofrestriadau'n cynnwys o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg.

Grŵp Llandrillo Menai oedd â'r gyfran fwyaf o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg gyda Phrifysgol Bangor yn dilyn wedyn. Felly yr oedd hi hefyd ar gyfer y categorïau o leiaf 40, 80 a 120 o gredydau.

**Roedd myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o astudio yn Gymraeg na myfyrwyr gwrywaidd**

Ffigur C.3: Nifer y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg a'u rhyw, 2024/25




Data yn Nhabl 8a yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Yn 2024/25 roedd nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn fwy na dwbl y nifer gan fyfyrwyr gwrywaidd. Roedd 5% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd yn cynnwys o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg o'i gymharu â 3% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr gwrywaidd.

O'r rhai a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, roedd myfyrwyr benywaidd (22%) yn fwy tebygol na myfyrwyr gwrywaidd (14%) o astudio o leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg.

## Adran D: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am ba bynciau a astudiwyd yn Gymraeg. Y pynciau a ddefnyddiwyd yw'r grwpiadau pynciau yn lefel 1 Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin HESA.

Mae'r pynciau a astudiwyd wedi cael eu cyfrifo fesul modiwl gan bod y data ar astudio yn Gymraeg yn cael ei gasglu fesul modiwl yn hytrach na fesul cwrs. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw nifer y cofrestriadau ym mhob pwnc yn cyd-fynd â'r rhai a gyhoeddwyd mewn mannau eraill megis Data Agored HESA sy'n defnyddio pwnc y cwrs ar y cyfan.

Gall cofrestriad gynnwys modiwlau mewn pynciau lluosog, a gallai modiwl unigol fod â phynciau lluosog. Gall unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau fod â rhywfaint o addysgu yn Gymraeg. Caiff y ffigwr cyfwerth â pherson llawn (FPE) ar gyfer pob cofrestriad ei rannu ar draws pynciau'r modiwlau y maent yn eu hastudio. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am niferoedd pynciau fel eu bod yn gyson â'r cyfansymiau mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn gan hefyd ddarparu canrannau cywir o gofrestriadau a astudiodd bwnc yn Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n gywir yma.

Er enghraifft, os oedd hanner modiwlau cofrestriad yn fodiwlau cyfrifiadura, a hanner yn fodiwlau yn y gyfraith, byddent yn cael eu cyfrif fel 0.5 FPE yn astudio cyfrifiadura a 0.5 FPE yn astudio'r gyfraith. Pe bai'r cofrestriad yn cynnwys o leiaf 1 credyd o'r modiwlau Cyfrifiadura yn Gymraeg, ond llai nag un credyd o fodiwlau'r gyfraith yn Gymraeg yna byddai'r cofrestriad yn ymddangos yn yr adran hon fel:

| Pwnc | Cofrestriadau (FPE) yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg | Pob Cofrestriad (FPE) |
|---|---|---|
| Cyfrifiadura | 0.5 | 0.5 |
| Y Gyfraith | 0.0 | 0.5 |

Fodd bynnag, yn yr adran flaenorol byddai'r cofrestriad hwn yn cael ei gyfrif fel bod 1 FPE wedi astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg gan olygu bod nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn is yn yr adran hon.

O 2022/23 ymlaen, roedd gwybodaeth am fodiwlau'n ddewisol ar gyfer cofrestriadau ymchwil ôl-radd. Ar gyfer y cofrestriadau hyn mae pynciau eu cwrs ar y cyfan wedi cael eu defnyddio yn lle hynny. Nid yw hyn yn wahaniaeth arwyddocaol o sut y cyfrifwyd hyn mewn blynyddoedd cynharach gan bod yr wybodaeth am fodiwlau a ddarparwyd ar gyfer cofrestriadau ymchwil ôl-radd mewn blynyddoedd cynharach yn aml yn cael ei darparu gan ddefnyddio modiwlau ffug a gafodd eu codio â'r un pwnc â'r cwrs.

Nid oes gan 900 o gofrestriadau (115 o siaradwyr Cymraeg rhugl) unrhyw wybodaeth am fodiwlau, ac felly nid oes ganddynt bwnc modiwl. Enghreifftiau o hyn yw myfyrwyr ôl-radd a addysgir y cafodd eu modiwlau eu cwblhau yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ond sy'n dal i fod â pheth gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon tra ydynt yn cwblhau eu cwrs. Nid yw'r myfyrwyr hyn wedi cael eu cynnwys yn y tablau yn yr adran hon.

Tabl D.1: Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl – siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n hanu o Gymru yn unig, 2024/25

| Pwnc | Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn cael ei astudio yn Gymraeg | Cyfanswm Nifer y Cofrestriadau | Canran y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn cael ei astudio yn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Addysg ac addysgu | 640 | 1,060 | 60% |
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 170 | 325 | 52% |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 255 | 565 | 45% |
| Astudiaethau cyfunol a chyffredinol | 100 | 235 | 42% |
| Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 65 | 165 | 40% |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 30 | 80 | 39% |
| Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio | 160 | 520 | 30% |
| **Pob pwnc** | **2,700** | **9,120** | **30%** |
| Gwyddorau cymdeithasol | 275 | 945 | 29% |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 75 | 270 | 29% |
| Pynciau sy'n berthynol i feddygaeth | 375 | 1,345 | 28% |
| Gwyddorau biolegol a chwaraeon | 175 | 635 | 28% |
| Gwyddorau mathemategol | 30 | 140 | 22% |
| Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol | 35 | 165 | 20% |
| Seicoleg | 90 | 465 | 19% |
| Y Gyfraith | 80 | 510 | 15% |
| Busnes a rheoli | 70 | 540 | 13% |
| Gwyddorau ffisegol | 20 | 165 | 13% |
| Peirianneg a thechnoleg | 35 | 430 | 8% |
| Cyfrifiadura | 15 | 290 | 5% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 5 | 140 | 4% |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | 10 | 0% |

Data yn Nhabl 9 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Ymhlith cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n hanu o Gymru yn 2024/25, addysg ac addysgu (60%), a meddygaeth a deintyddiaeth (52%) oedd y pynciau modiwlau â'r cyfrannau uchaf ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg.

Tabl D.2: Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl – yr holl fyfyrwyr, 2024/25

| Pwnc | Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn cael ei astudio yn Gymraeg | Cyfanswm Nifer y Cofrestriadau | Canran y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn cael ei astudio yn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Addysg ac addysgu | 1,305 | 7,005 | 19% |
| Astudiaethau cyfunol a chyffredinol | 250 | 2,605 | 10% |
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 385 | 4,290 | 9% |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 450 | 5,880 | 8% |
| Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio | 485 | 6,590 | 7% |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 50 | 885 | 5% |
| Pynciau sy'n berthynol i feddygaeth | 695 | 16,365 | 4% |
| Gwyddorau cymdeithasol | 660 | 16,055 | 4% |
| **Pob pwnc** | **5,290** | **142,925** | **4%** |
| Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 70 | 2,240 | 3% |
| Gwyddorau biolegol a chwaraeon | 325 | 10,520 | 3% |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 80 | 4,005 | 2% |
| Gwyddorau mathemategol | 45 | 2,685 | 2% |
| Y Gyfraith | 120 | 8,080 | 1% |
| Seicoleg | 110 | 8,395 | 1% |
| Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac amgylcheddol | 40 | 3,695 | 1% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 20 | 2,140 | 1% |
| Gwyddorau ffisegol | 25 | 3,335 | 1% |
| Peirianneg a thechnoleg | 50 | 8,610 | 1% |
| Busnes a rheoli | 95 | 20,395 | 0% |
| Cyfrifiadura | 20 | 8,940 | 0% |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | 210 | 0% |

Data yn Nhabl 10 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar [StatsCymru](StatsCymru)

Ymhlith y cofrestriadau gan yr holl fyfyrwyr, addysg ac addysgu oedd y pwnc modiwl â'r nifer uchaf (1,305) a'r gyfran uchaf (19%) o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

Roedd chwarter (25%) yr holl gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg yn astudio modiwlau addysg ac addysgu.

## Adran E: Staff

Dim ond staff ym mhrifysgolion Cymru y mae'r adran hon yn eu cynnwys gan nad yw colegau addysg bellach a darparwyr amgen yn cyflwyno data i gofnod staff HESA. Nid yw'r Brifysgol Agored wedi'i chynnwys ychwaith gan nad yw'n bosibl gwahanu'r data rhwng gwahanol wledydd y DU.

Nid yw staff ar gontractau annodweddiadol wedi'u cynnwys. Mae'r holl ffigyrau yn yr adran hon yn rhai Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE).

Tabl E.1: Staff addysgu academaidd yn ôl pa un a ydynt yn gallu a/neu wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg, 2019/20 i 2024/25

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn gallu addysgu yn Gymraeg** | **1,085** | **1,025** | **1,035** | **1,015** | **845** | **940** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 580 | 570 | 540 | 550 | 540 | 615 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 345 | 300 | 360 | 385 | 245 | 225 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 155 | 160 | 130 | 80 | 60 | 100 |
| **Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg** | **6,810** | **6,740** | **6,745** | **7,220** | **7,750** | **7,575** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 5,170 | 4,895 | 4,955 | 6,295 | 6,790 | 6,345 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 1,640 | 1,845 | 1,790 | 925 | 955 | 1,230 |
| **Gwybodaeth heb ei cheisio** | **140** | **185** | **430** | **460** | **860** | **665** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 15 | 10 | 15 | 15 | 25 | 15 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 40 | 50 | 170 | 205 | 460 | 380 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 85 | 125 | 245 | 240 | 375 | 275 |
| **Pob gallu i addysgu yn Gymraeg** | **8,035** | **7,955** | **8,210** | **8,695** | **9,455** | **9,180** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 595 | 575 | 555 | 565 | 565 | 630 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 5,555 | 5,245 | 5,485 | 6,885 | 7,500 | 6,945 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 1,885 | 2,130 | 2,170 | 1,245 | 1,390 | 1,605 |

Data yn Nhabl 11 ar y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Fe wnaeth nifer y staff addysgu sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg gynyddu i 630 yn 2024/25, sy'n gynnydd o 12% o'r cyfanswm o 565 yn 2023/24.

Roedd 66% o staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg yn 2024/25, sy'n gyfran uwch nag mewn

blynyddoedd cynharach. Ar y cyfan, mae 7% o staff addysgu wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg.

Fe gynyddodd nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg i 940 yn 2024/25 o'i gymharu ag 845 o aelodau o staff yn 2023/24. Roedd y mwyafrif o'r cynnydd hwn ym Mhrifysgol Bangor oherwydd gwelliannau i ansawdd y data yn dilyn newidiadau i'w systemau Adnoddau Dynol.

Tabl E.2: Nifer y staff addysgu academaidd sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg a'r nifer sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn ôl darparwr, 2024/25

| Darparwr | Nifer y staff sy'n addysgu yn Gymraeg | Canran y staff sy'n addysgu yn Gymraeg | Nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg | Canran y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg | Cyfanswm nifer y staff addysgu |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 25 | 1% | 75 | 4% | 1,660 |
| Prifysgol Aberystwyth | 120 | 22% | 160 | 28% | 560 |
| Prifysgol Bangor | 205 | 27% | 270 | 36% | 760 |
| Prifysgol Caerdydd | 135 | 5% | 190 | 6% | 2,940 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 70 | 8% | 105 | 12% | 855 |
| Prifysgol Abertawe | 55 | 4% | 75 | 6% | 1,320 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 25 | 3% | 50 | 6% | 840 |
| Prifysgol Wrecsam | 0 | 0% | 15 | 6% | 240 |
| **Pob darparwr** | **630** | **7%** | **940** | **10%** | **9,180** |

Data yn Nhabl 12 ar y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Prifysgol Bangor oedd â'r gyfran uchaf (27%) o staff academaidd sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg, gyda Phrifysgol Aberystwyth yn dilyn wedyn (22%).

Y prifysgolion hyn hefyd oedd â'r cyfrannau uchaf o staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg ar 36% ar gyfer Prifysgol Bangor a 28% ar gyfer Prifysgol Aberystwyth.

Tabl E.3: Canolfannau costau staff addysgu sy'n addysgu yn Gymraeg, 2024/25

| Canolfan gost | Yn addysgu yn Gymraeg | Ddim yn addysgu yn Gymraeg | Gwybodaeth heb ei cheisio | Cyfanswm nifer y staff addysgu |
|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd | 75 | 1,640 | 385 | 2,095 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddor filfeddygol | 15 | 35 | 30 | 80 |
| Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol | 35 | 780 | 130 | 945 |
| Peirianneg a thechnoleg | 15 | 905 | 120 | 1,040 |
| Pensaernïaeth a chynllunio | 0 | 115 | 10 | 130 |
| Gweinyddu ac astudiaethau busnes | 20 | 840 | 155 | 1,015 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 60 | 985 | 120 | 1,165 |
| Y dyniaethau, astudiaethau seiliedig ar iaith ac archaeoleg | 160 | 525 | 75 | 760 |
| Dylunio, y celfyddydau creadigol a pherfformio | 35 | 415 | 420 | 870 |
| Addysg | 195 | 645 | 150 | 995 |
| Gwasanaethau academaidd | 15 | 45 | 15 | 70 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog, cyfleusterau staff a myfyrwyr | 0 | 10 | 0 | 15 |
| Y safle | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Preswylfeydd ac Arlwyo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Pob un** | **630** | **6,945** | **1,605** | **9,180** |

Data yn Nhabl 13 ar y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

Mae'r tablau ar y dudalen hon yn rhannu niferoedd staff yn ôl canolfan gostau. Cysyniad cyfrifyddu a ddefnyddir fel dirprwy ar gyfer adrannau academaidd yw canolfannau costau. Mae'r holl ddarparwyr AU yn trefnu eu hysgolion academaidd, eu cyfadrannau a'u hadrannau'n wahanol. Mae canolfannau costau HESA wedi'u bwriadu i fod mor gymaradwy â phosibl rhwng gwahanol ddarparwyr.

Y ddwy ganolfan gostau â'r niferoedd uchaf o staff yn addysgu yn Gymraeg oedd 'Addysg', a'r 'Dyniaethau, astudiaethau seiliedig-ar-iaith ac archeoleg'. Roedd dros hanner (57%) y staff yr oedd yn hysbys eu bod yn addysgu yn Gymraeg yn y ddwy ganolfan gostau hyn.

# Diffiniadau

## Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae cyfansymiau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna wedi cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf felly efallai na fyddant yn hafal i swm y rhannau cyfansoddol.

Mae canrannau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna wedi cael eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Golyga hyn efallai nad yw'r canrannau yn y datganiad hwn yn hafal i'r hyn y byddech yn ei gael o'r ffigyrau wedi'u talgrynnu. Os cyfrifwyd canran lle mae'r enwadur yn llai na 22.5 yna mae'r ganran wedi cael ei chelu ac fe'i dangosir fel -.

## Myfyrwyr

### Blwyddyn academaidd

Mae'r holl flynyddoedd yn flynyddoedd academaidd sy'n rhedeg o fis Awst i fis Gorffennaf, e.e. mae 2024/25 yn golygu 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2025.

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Mae'r holl gofrestriadau myfyrwyr yn ffigyrau cyfwerth â pherson llawn. Mae ffigyrau cyfwerth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr ar draws y pynciau y maent yn eu hastudio, ni waeth beth fo cyfanswm yr amser y mae myfyriwr yn ei astudio. Cyfrifir myfyriwr cyd-anrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg a hanner Cyfrifiadura, fel 0.5 FPE mewn Mathemateg a 0.5 FPE mewn Cyfrifiadura, yr un fath ag y byddai myfyriwr cyd-anrhydedd amser llawn yn cael ei gyfrif.

### Gallu i siarad Cymraeg

Hunanasesiad o allu myfyriwr i siarad Cymraeg. Cyn 2022/23, roedd pedwar opsiwn:

1. Siaradwr Cymraeg rhugl
2. Siaradwr Cymraeg nad yw'n rhugl
3. Ddim yn siaradwr Cymraeg
4. Anhysbys

Yn 2022/23, fe newidiodd y dull casglu ac fe ehangwyd yr opsiynau ar gyfer siaradwyr nad ydynt yn rhugl i:

1. Siaradwr Cymraeg: yn gallu siarad cryn dipyn
2. Siaradwr Cymraeg: yn gallu siarad ychydig yn unig
3. Siaradwr Cymraeg: yn gallu dweud ychydig o eiriau

Daeth yn bosibl dychwelyd myfyrwyr fel siaradwyr Cymraeg ond â lefel hyfedredd anhysbys hefyd.

### Myfyrwyr o Gymru/myfyrwyr sy’n hanu o Gymru

Mae myfyriwr o Gymru, neu’n hanu o Gymru, os oedd eu cod post parhaol ar adeg ymuno â’u cwrs yng Nghymru.

### Nifer y credydau a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg

Cyfrifir nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad fesul modiwl. Er enghraifft, os gwnaeth cofrestriad astudio hanner modwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny’n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Caiff nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar draws yr holl fodiwlau ei symio i roi cyfanswm nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg.

### Pwnc y modiwl

Pwnc y modiwl gan ddefnyddio’r grwpiau pynciau yn lefel 1 yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin. Gall cofrestriad gynnwys modiwlau mewn pynciau lluosog, a gallai un modiwl fod â phynciau lluosog. Caiff y ffigwr cyfwerth â pherson llawn (FPE) ar gyfer pob cofrestriad ei rannu ar draws yr holl bynciau modiwl y maent yn eu hastudio.

## Staff

### Canolfan gostau

Cysyniad ariannol sy’n grwpio aelodau o staff i ganolfannau costau cysylltiedig penodol yw canolfan gostau. Mae’r grwpiau canolfannau costau ar wahân i godau pynciau’r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin ac yn anghymharol. Y rheswm dros yr anghymaroldeb ac ehangder yr elfennau yn y maes hwn yw er mwyn efelychu’r ffordd y gall adnoddau (gan gynnwys staff) gael eu rhannu dros amrywiaeth o gyrsiau tebyg a’r gwahaniaethau yn y ffordd y mae darparwyr AU unigol yn eu dyrannu. Er enghraifft, gall yr holl gyrsiau iaith a gynigir mewn darparwr AU ddefnyddio’r un adnoddau (gall staff addysgu mwy nag un pwnc) gan ei gwneud yn amhosibl dyrannu adnoddau unigol i bynciau penodol mewn ffordd bendant. Mae’r grwpiau canolfannau costau’n adlewyrchu hyn.

### Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE)

Gall staff fod â mwy nag un contract a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifau staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn gymesur â’r ffigwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) a ddatganwyd ar gyfer pob gweithgaredd. Canlyniad hyn yw cyfrifau o ffigyrau cyfwerth â pherson llawn (FPE). Cyfrifir cyfrifau FPE staff ar sail gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

### Cyfwerth ag amser llawn (FTE)

Cyfwerth ag amser llawn (FTE) yw’r hyn a gofnodwyd yn y contract ac mae’n mesur cywerthedd ag amser llawn dros y cyfnod adrodd o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

### Staff annodweddiadol

Staff annodweddiadol yw’r rhai nad yw eu trefniadau gweithio’n rhai parhaol, lle mae perthnasoedd cyflogaeth yn gymhleth a/neu lle mae trefniadau’n cynnwys gweithio i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

### Wedi’u contractio i addysgu yn Gymraeg

Mae tabl contractau Cofnod Staff HESA yn cynnwys manylion staff sy’n addysgu yn Gymraeg. Ffigwr cyfwerth â pherson llawn (FPE) contractau staff addysgu sy’n cynnwys rhywfaint o addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yw nifer y staff sy’n addysgu yn Gymraeg.

### Yn gallu addysgu yn Gymraeg

Hunanasesiad i ddynodi pa un a yw aelod o staff yn gallu addysgu yn Gymraeg.

## Gwybodaeth am ansawdd a’r fethodoleg

### Ffynonellau data

Y ffynonellau data ar gyfer y cyhoeddiad hwn yw cofnodion Myfyrwyr a Staff HESA.

### Nodiadau ansawdd ar gyfer Cofnod Myfyrwyr HESA

#### Gallu i siarad Cymraeg

Casglwyd Cofnod Myfyrwyr HESA 2022/23 gan ddefnyddio system casglu data a model data newydd a gyflwynwyd gan y rhaglen drawsnewid ‘Dyfodol Data’. Roedd y system a’r model newydd yn newid sylweddol i’r broses gasglu ac roedd nifer uwch o heriau a materion o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Roedd un o’r newidiadau’n ymwneud â sut yr oedd gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn cael ei chasglu. Roedd gofyn cael disgrifiad mwy manwl o’r gallu i siarad yr iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am allu myfyrwyr i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg. Oherwydd graddfa’r newid ar y cyfan, roedd hyn yn broblemus i rai darparwyr ac fe arweiniodd at ostyngiad yn ansawdd y data yn 2022/23. Yn 2022/23, roedd nifer uwch nag arfer o fyfyrwyr â sgiliau Cymraeg anhysbys ac fe gafodd rhai darparwyr anhawster categoreiddio siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn gywir.

Fe wellodd y materion hyn yn 2023/24 a 2024/25, gydag ansawdd y data’n nes at yr hyn oedd cyn y newid yn y modd y cesglir y data. Fodd bynnag, roedd cyfran uchel o allu Cymraeg anhysbys o hyd ym Mhrifysgol De Cymru ac yn y Brifysgol Agored.

I Brifysgol De Cymru, fe achoswyd hyn i raddau helaeth gan broblem gyda’r meddalwedd a arweiniodd at ddychwelyd data gwrthgyferbyniol pan oedd gwybodaeth myfyriwr yn cael ei diweddaru ac felly nid oeddem yn gallu adnabod beth oedd yr wybodaeth gywir ar gyfer y myfyrwyr hyn. Mae Prifysgol De Cymru’n gweithio gyda’u cyflenwr meddalwedd ar y broblem hon ac yn disgwyl i nifer y cofrestriadau yr effeithir arnynt fod yn llai yn 2025/26.

Roedd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru yn hanesyddol lefel uchel o fyfyrwyr â gallu anhysbys i siarad Cymraeg. Felly yr oedd hi hefyd cyn cyflwyno Dyfodol Data oherwydd anawsterau casglu'r wybodaeth hon gan eu myfyrwyr. Nid oedd ganddynt unrhyw fyfyrwyr yn y categori siaradwr Cymraeg nad yw'n rhugl ychwaith gan na ofynnwyd i'w myfyrwyr am y categorïau gallu mwy manwl a gyflwynwyd yn 2022/23, gan olygu mai dim ond fel siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys y gellid eu dychwelyd. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cyflwyno cwestiynau ychwanegol i gasglu'r wybodaeth hon, ac mae'n debygol y gwelir gwelliannau ar gyfer casglu data 2026/27.

### Faint a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg

Cafodd Dyfodol Data lai o effaith ar ansawdd y data mewn perthynas â nifer y credydau a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, effeithir ar y data yma gan sut y mae darparwyr yn amcangyfrif y gyfran o bob modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, gan bod y modd y gwneir hyn yn gallu amrywio o fewn pob darparwr a rhwng darparwyr.

Gellid gweld effaith hyn yn 2023/24 pan fu gostyngiad mawr yn nifer y cofrestriadau â niferoedd is o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg. Roedd elfen fawr o'r newid hwn yn gysylltiedig â newidiadau i sut yr oedd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cofnodi'r wybodaeth hon yn hytrach na'i fod yn newid mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig.

Mae effaith hyn yn fwyaf blaenllaw mewn cofrestriadau â symiau cymharol isel o astudio yn Gymraeg lle mae gwahaniaethau bychain yn y ganran o fodiwl a astudiwyd yn Gymraeg yn fwyaf amlwg.

Cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ganllaw ym mis Chwefror 2026 i helpu darparwyr i ddiffinio a chyfrifo maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd y canllaw'n rhoi fframwaith i ddarparwyr gofnodi'r wybodaeth hon yn gywir ac yn gyson. Wrth i ddarparwyr roi'r canllaw hwn ar waith disgwylir y bydd hyn yn parhau i effeithio ar gyfres amser y data yma os yw'n golygu newid o arferion cyfredol; fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir byddai ansawdd y data'n cael ei wella. Bydd Medr yn monitro hyn fel rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd.

## Nodiadau ansawdd ar gyfer Cofnod Staff HESA

Yn 2023/24, bu gostyngiad mawr yn nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd hyn yn gysylltiedig â newid o ran sut y cesglir y data, gyda chynnydd yn y rhai a ddychwelwyd fel 'Gwybodaeth heb ei cheisio' ar gyfer y newidyn hwn. Yn 2024/25, bu gostyngiad yn nifer y staff â 'Gwybodaeth heb ei cheisio'.

## Prosesau Sicrhau Ansawdd

Caiff ansawdd y data a gyflwynir i Gofnod Myfyrwyr HESA ei wirio mewn amryw ffyrdd.

Y ffordd gyntaf o wneud hyn yw bod y data'n cael ei wirio'n awtomatig yn erbyn y rheolau ansawdd ym Mhlatfform Data HESA, er enghraifft sicrhau bod hyfedredd yn y Gymraeg yn cael ei ddychwelyd ar gyfer yr holl fyfyrwyr perthnasol neu os oes niferoedd uwch na'r disgwyl yn cael eu dychwelyd lle nad yw'r wybodaeth hon ar gael. Os yw darparwr yn methu'r rheolau ansawdd hyn, amlygir hynny yn y System Rheoli Materion, fel bod darparwyr yn gallu naill ai datrys y mater, egluro pam na ellir ei ddatrys neu egluro pam nad yw'n fater y mae angen ei ddatrys o gwbl gyda'r data. Mae Medr wedi gofyn am

ychwanegu rhagor o reolau ansawdd at y broses casglu data yn seiliedig ar y materion ansawdd a welwyd mewn data ar y Gymraeg i helpu i adnabod mwy o'r materion hyn mor gynnar â phosibl.

Yn ogystal â'r rheolau ansawdd hyn, mae Medr yn cael y data wrth iddo gael ei gyflwyno trwy system a elwir yn Wasanaeth Rhyngwyneb Adrodd am Wybodaeth (IRIS). Wedyn mae Medr yn cynhyrchu allbynnau yn seiliedig ar sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r data at amryw ddibenion sydd wedyn yn cael eu hanfon yn ôl at ddarparwyr er mwyn iddynt weld a yw'n cyfateb i'r hyn y maent yn ei ddisgwyl. Mae allbynnau IRIS yn cynnwys gwybodaeth i ddarparwyr am lefelau'r data dilys ar gyfer sgiliau Cymraeg, a gwybodaeth am nifer y credydau a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar gyfer cyllid. Yng nghasgliad data 2025/26, rydym hefyd wedi cyflwyno allbwn yn benodol ar gyfer sut yr ydym yn defnyddio data mewn Ystadegau Swyddogol, fel bod darparwyr a Medr yn gallu gweld a oes newidiadau mawr yn yr hyn y bydd ein cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol yn adrodd arno ar gyfer eu sefydliad hwy. Os yw allbynnau IRIS yn amlygu materion posibl, yna rydym yn trafod y rhain gyda darparwyr er mwyn iddynt allu darparu esboniad neu ddiwygio'r data cyn iddo gael ei gofnodi'n derfynol.

Mae Medr hefyd yn cwrdd â darparwyr yn rheolaidd i ddeall unrhyw faterion gyda chasglu data. Trwy gydol y flwyddyn mae Medr yn trefnu cyfarfodydd ar draws y sector cyfan i weithio gyda chydweithwyr yn y sector i adnabod a thrafod materion ac unrhyw welliannau y gellir eu gwneud.

Rydym hefyd yn cwrdd â darparwyr yn unigol o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn trafod unrhyw faterion sy'n benodol i'r darparwr hwnnw i gael dealltwriaeth lawn am eu data ac unrhyw welliannau a ddisgwylir.

Byddwn yn adolygu'r prosesau hyn yn rheolaidd i adnabod rhagor o gyfleoedd i wella ansawdd data.

## Datganiad o gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Rheoleiddir ein harfer ystadegol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y mae'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol yn ymlynu wrtho.

Cynhyrchir a chyhoeddir ein holl ystadegau yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Nodir y rhain yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

## Ansawdd

Daw'r data o Gofnodion Myfyrwyr a Staff HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rheolau dilysu penodol. Wrth i'r ystadegau gael eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

Mae rhai o'r meysydd data allweddol a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn yn dibynnu ar asesiad unigolion neu ddarparwyr, a fydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

Mae'r data a gesglir ar allu myfyrwyr i siarad Cymraeg yn dibynnu ar hunanasesiad gan y myfyriwr. Golyga hyn y bydd peth anghysondeb rhwng myfyrwyr o ran sut y byddent yn asesu eu gallu i siarad Cymraeg.

Mae cyfrifo faint y mae myfyriwr yn ei astudio yn Gymraeg yn dibynnu ar y meysydd LANGPCNT a PGRLANGPCNT yng nghofnod myfyrwyr HESA. Mae LANGPCNT yn casglu'r gyfran o'r modiwl a astudiwyd yn Gymraeg ac mae PGRLANGPCNT yn casglu'r gyfran o sesiwn cwrs y myfyriwr a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr PGR nad oes modiwlau wedi'u dychwelyd ar eu cyfer. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad y darparwyr o ba gyfran sy'n cael ei hastudio yn Gymraeg.

## Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a gallu myfyrwyr a staff yn y Gymraeg.

Defnyddir yr ystadegau o fewn Medr, Llywodraeth Cymru a chan eraill i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Rhai o'r defnyddwyr allweddol yw:

- Swyddogion ac Aelodau Bwrdd Medr
- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Darparwyr a chyrff cynrychioliadol Addysg Uwch
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau

Rydym wedi cyhoeddi'r datganiad yn gynharach eleni, ym mis Gorffennaf, er mwyn i'r data fod yn fwy amserol na'r datganiadau y bu oedi gyda hwy ar gyfer 2022/23 a 2023/24. Mae hyn yn dod â data'r cyhoeddiad yn ôl i'r adeg y byddai'n cael ei gyhoeddi'n hanesyddol gan Lywodraeth Cymru.

## Newid yn statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Cenedlaethol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau

Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro tra bo'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau'n asesu'r ystadegau.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn mewn adroddiad asesu ym mis Mawrth 2026. Canfu'r adroddiad hwn fod ystadegau Medr 'yn cael eu cynhyrchu i safonau uchel fel rheol, a bod defnyddwyr wedi dweud wrthym eu bod yn diwallu eu hanghenion'. Adnabu'r adroddiad hefyd fod nifer o ofynion y mae'n rhaid i Medr ymdrin â hwy cyn i bob un o'r chwe set o ystadegau allu dod yn ystadegau swyddogol achrededig ac mae Medr yn gweithio i ateb y gofynion hynny erbyn mis Mawrth 2027. Roedd dau ofyniad a oedd yn ymwneud yn benodol â'r cyhoeddiad hwn:

**Gofyniad 2:** I sicrhau hyder y cyhoedd yn yr ystadegau am y Gymraeg mewn addysg uwch, dylai Medr barhau i weithio gyda darparwyr addysg uwch i wella ansawdd y data erbyn mis Mawrth 2027.

**Gofyniad 3:** I sicrhau defnyddwyr ynghylch ansawdd yr ystadegau am y Gymraeg mewn addysg uwch, dylai Medr ddisgrifio ei drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer yr ystadegau erbyn mis Mawrth 2027.

I ymdrin â'r rhain rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am ein prosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys gwybodaeth am sut yr ydym yn gweithio gyda'r darparwyr addysg uwch.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyn data 2022/23, Llywodraeth Cymru oedd yn cynhyrchu'r datganiad hwn. Ceir dolenni i ddatganiadau blaenorol yn y gyfres a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar llyw.cymru. Mae adroddiadau 2022/23 a 2023/24 i'w cael ar wefan Medr.

Mae Addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol, Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau a addysgir yn Gymraeg a sgiliau Cymraeg dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau prentisiaethau yn ôl cyfrwng astudio.

Mae Ystadegau blynyddol y gweithlu addysg yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff mewn ysgolion, addysg bellach ac yn y sector addysg oedolion.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau a cheisiadau am ragor o ddata trwy'r e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**